

Adroddiad Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

Dyddiad y cyfarfod :	22 Tachwedd 2018
Aelod Cabinet :	Y Cyng. Craig ap Iago
Swyddog Cyswllt :	Sioned Williams
E-bost a Ffôn Cyswllt :	sionedewilliams@gwynedd.llyw.cymru est. 32547
Adran / Gwasanaeth:	Economi a Chymuned

Teitl yr Eitem: Rôl Swyddogion Adfywio Bro i'r dyfodol

Pam bod angen craffu? Gofynwyd i'r Adran ystyried ymgorffori rôl cydweithio gyda Chynghorau Cymuned a'r trydydd Sector gyda'r Gwasanaeth Adfywio Cymunedol i'r dyfodol. Roedd hyn mewn ymateb i gyllideb ar gyfer adnodd dros dro yn Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ddod i ben. Roedd yr Adran wedi adnabod yr angen i adolygu rôl y Swyddogion Adfywio Bro o fewn y gwasanaeth Adfywio Cymunedol yn 2018 a hynny yn sgil newid yn y galw gan gymunedau am gymorth a'r cyfleoedd ariannu sydd ar gael. Mae opsiynau gwahanol wedi eu hystyried er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau ac adnoddau a chroesawir mewnbyn y Pwyllgor Craffu ar yr opsiwn ffafredig.


Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?

1. Sefydlwyd y rhwydwaith swyddogion adfywio yng Ngwynedd yn 1997 i sbarduno syniadau menter mewn cymunedau a chefnogi mentrau newydd i sefydlu er mwyn diogelu a chreu gwaith yn lleol. Targedwyd cronfa LEADER yn y lle cyntaf oedd yn arian Ewrop i dreialu syniadau newydd, ond yn 2000 sefydlwyd Cronfa Cwlwm Gwledig gyda chymorth Rhaglen Adfywio Lleol y Cynulliad oedd yn sicrhau bod £2.5M o adnoddau ar gael i gymunedau ei dargedu gyda chymorth y Swyddogion Adfywio Bro. Roedd pwyslais ar wneud defnydd o'r gronfa fel arian cyfatebol i gronfeydd eraill.
2. Erbyn 2001 Roedd nifer o gronfeydd wedi cael eu sefydlu gyda chymorth arian Ewropeaidd Amcan 1, Llywodraeth Cymru a chronfeydd y Loteri i gefnogi cymunedau a'r trydydd sector. Cytunwyd gyda Grŵp Trydydd Sector Gwynedd mai'r bwlch yng Ngwynedd oedd sgiliau i:
 - gefnogi cymunedau i flaenoriaethu'r ymyrraethau fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf;
 - arweiniad ar baratoi achosion busnes;

- cymorth i gyflwyno ceisiadau i dargedu'r rhaglenni ariannol.

Addaswyd rôl y Swyddogion Adfywio Bro yn y cyfnod hwn i gydweithio gyda cymunedau mewn 8 dalgylch ar draws Gwynedd i gynhyrchu cynlluniau adfywio bro a chefnogi partneriaid i wireddu'r prosiectau blaenoriaeth.

3. Drwy waith y cynlluniau ardal gwelwyd fod angen rhoi mwy o flaenoriaeth i dargedu cymunedau o angen a datblygwyd y tim yn gyfochrog â Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yng Ngwynedd. Rhwng 2001 a 2018 roedd Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn darparu'r cymorth dwys i gymunedau yn y wardiau mwyaf direintiedig tra fod y Swyddogion Adfywio Bro yn targedu'r cymunedau hynny oedd yn dangos lefelau uchel o amddifadedd ond oedd ddim yn cwrdd â'r trothwy cenedlaethol i fod yn gymwys i dderbyn cymorth Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf (strwythur Adfywio Cymunedol yn Atodiad 1).
4. Fel rhan o raglen arbedion y Cyngor 2012 gwnaed penderfyniad i gwtogi'r rhwydwaith Swyddogion Adfywio Bro o 8 i lawr i 5. Golygai hyn nad oedd yr adnoddau i gynnal y berthynas ar yr un lefel. Cyfanswm cyllideb gwasanaeth Adfywio Cymunedol 2018 ydi £212,800. Yn yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad yn y lefel o gymorth ar gael i fudiadau cymunedol ar lefel cenedlaethol a lleol gyda llai o gronfeydd grant ar gael i'w targedu.
5. Dros y 3 blynedd diwethaf mae rôl swyddogion wedi bod yn fwy ymatebol i ofynion y cymunedau gyda llawer llai o bwyslais ar agweddau adfywio cymunedol a mwy o bwyslais ar gefnogi cymunedau i ymateb i newid. Bydd copi o raglen waith y tim ar gael i'r Pwyllgor 22 Tachwedd ac fe nodwch o'r wybodaeth fod natur y galw am gymorth yn amrywiol iawn. Mae mwy o bwyslais bellach ar gynorthwyo cymunedau i gynllunio yn sgil newidiadau i drefniadau darparu gwasanaethau cyrff cyhoeddus a llai o brosiectau wedi eu cynllunio fel rhan o raglen fwriadol i adfywio cymunedau.
6. Mae'n glir o'r rhaglen waith fod y swyddogion yn gweithio'n agos gyda Cynghorau Cymuned a'r trydydd sector ac yn gweithredu'n barod mewn nifer o gymunedau fel prif bwynt cyswllt i'r Cyngor. Mae'r tim swyddogion adfywio wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Cydlynnydd Cynghorau Cymuned a Grwpiau Cymunedol (o fewn yr Adran Cefnogaeth Corfforaethol) dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi cefnogi'r cymunedau i ymgysylltu ac ymateb.
7. Dros yr un cyfnod mae polisi adfywio Llywodraeth Cymru wedi symud i ffwrdd o weithio gyda cymunedau i dargedu cynlluniau strategol rhanbarthol yn y canolfannau hynny lle mae lefelau amddifadedd fwyaf dwys. Mae sgiliau'r tim Rhaglenni Datblygu Economaidd wedi bod yn fwy perthnasol i'r rhaglenni adfywio hyn a dyma'r gwasanaeth sydd bellach yn rheoli a datblygu'r prosiectau adfywio.
8. Mae'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf wedi dod i ben yn 2018 gyda rhaglen Cymunedau i Waith yn dod yn ei lle sydd yn rhoi pwyslais ar gefnogi unigolion



i waith gyda deilliannau mwy economaidd, yn hytrach na grymuso cymunedau. Mae rôl y tîm Swyddogion Adfywio Bro felly wedi ymbellhau oddi wrth yr agenda adfywio yn naturiol, ond yn parhau i chwarae rôl allweddol yn cefnogi cymunedau.

9. Mae'r cefndir yn dangos yn glir fod rôl y Swyddogion Adfywio Bro wedi bod yn esblygu yn gyson dros yr 20 mlynedd diwethaf. Ond mae'r pwrpas wedi aros yn gyson dros y cyfnod, sef cefnogi cymunedau. Byddai ymgorffori'r rôl cyswllt trydydd sector a chynghorau cymuned yn gam naturiol i wneud y defnydd gorau o adnoddau.
10. Mae'r Adran wedi ystyried nifer o gyfleoedd i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau hyn, ond mae 2 opsiwn penodol lle croesawir mewnbwn y Pwyllgor Craffu:
 - Opsiwn 1 - cyfuno rôl y tîm adfywio cymunedol gyda timau eraill o fewn y Gwasanaeth Rhaglenni Datblygu Economaidd (Atodiad 2). Byddai manteision yma i gryfhau adnoddau i dargedu mwy o gymunedau, ond ystyrir bod pwrpas y ddau wasanaeth yn wahanol bellach a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflawni hefyd yn wahanol ac oherwydd hyn ni fyddai mantais o gyfuno'r unedau gwasanaeth.
 - Opsiwn 2 - cadw tîm bychan gyda'u gilydd er mwyn cadw'r pwyslais ar gefnogi cymunedau i gyflawni (Atodiad 3). Y fantais yma fyddai creu adnodd fyddai'n galluogi Cyngor Gwynedd cynnal perthynas gyda'r cymunedau ar ystod ehangach o raglenni a ddim cael eu cyfyngu i raglenni sydd yn cyfrannu i amcanion adfywio a datblygu'r economi yn unig.
11. Ni ellir wrth gwrs ragdybio ar y pwynt hwn beth fydd casgliadau'r Cyngor ar arbedion o fewn ei gyllideb, ond ar sail fod y gyllideb yn cael ei gwarchod, argymhellir:
 - ail ddiffinio rôl Swyddogion Adfywio Bro i fod yn Swyddogion Cefnogi Cymunedau fyddai'n ymgorffori rôl cyswllt â'r Cynghorau Cymuned a'r Trydydd Sector.
 - bod swyddog cyswllt yn cael ei adnabod i gymunedau unigol, ond fod y swyddogion yn gweithio yn fwy fel tîm sirol, er mwyn manteisio ar sgiliau a chryfderau penodol gwahanol aelodau o'r tîm.
 - bod y tîm yn cryfhau'r cyswllt gyda llyfrgelloedd er mwyn hyrwyddo mynediad cymunedau i ffynhonnellau gwybodaeth a chymorth i'r dyfodol
12. Byddai sylwadau'r Pwyllgor Craffu ar yr argymhellion hyn yn cael eu croesawu.

Amserlen Berthnasol : Gweithredu 1 Ebrill 2019


Cyswllt:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk






ATODIAD 1

Strwythur Adfywio Cymunedol 1/4/17




Strwythur Adfywio Cymunedol (dros dro) 1/4/18



ATODIAD 2

Opsiwn 1 : Cyfuno gyda Tim Rhaglenni Datblygu Economaidd



Opsiwn 2 : Sefydlu Tim Cefnogi Cymunedau Economaidd

